# SL(5)498 - Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adran 3(3)(a) o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ("Deddf TUPC"), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 30 Ionawr 2020. Mae'r Rheoliadau yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu Cynlluniau Taliad Uniongyrchol Polisi Amaethyddol Cyffredin i weithredu'n effeithiol, ac â diffygion yn y gyfraith UE honno a ddargedwir. Mae'r Rheoliadau'n diwygio dau ddarn o is-ddeddfwriaeth ym maes amaethyddiaeth:

- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014; a
- Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol". Mae'r Rheoliadau eisoes wedi cael eu gwneud, ond mae angen i'r Cynulliad eu cymeradwyo er mwyn dod i rym am fwy na 28 diwrnod.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol, yn y trydydd paragraff yn dilyn y pennawd "Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee", yn darparu "The instrument could not be made until the DPLC received Royal Assent on 30 March 2020". Fodd bynnag, cafodd Deddf TUPC (y "DPLC") Gydsyniad Brenhinol ar 30 Ionawr 2020, gan alluogi i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar Ddiwrnod Ymadael (23.00 ar 31 Ionawr 2020). Mae'r Rheoliadau'n darparu nad yw paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 yn berthnasol. Bydd y Rheoliadau yn galluogi deddfwriaeth ddomestig yr UE sy'n llywodraethu'r Cynllun Taliad Uniongyrchol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, sy'n rhedeg o 1 Ionawr 2020 tan 31 Rhagfyr 2020, i weithredu'n effeithiol yn y DU yn syth ar ôl Ymadael â'r UE.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod camgymeriad yn y Memorandwm Esboniadol (yn y trydydd paragraff yn dilyn y pennawd "Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee"). Cafodd y Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2) y Cydsyniad Brenhinol ar 30 Ionawr 2020, nid 30 Mawrth 2020.

Gallaf gadarnhau y bydd hyn yn cael ei gywiro, ac y caiff Memorandwm Esboniadol diwygiedig ei osod cyn gynted ag y bo modd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Chwefror 2020**